

Ysgol Casnewydd. Gweithdy. 18fed o fis Chwefror. A Bird in a Cage / Aderyn Caeth.

Pwnc: Bywyd a chyflawniadau Arglwyddes y Rhondda a'r ymgyrch i ennill y bleidlais i fenywod yng Nghasnewydd.

Nod: Cyflwyno Arglwyddes y Rhondda i'r dosbarth ac arddangos sut yr oedd wedi chwarae rhan yn yr ymgyrch i helpu menywod i ennill y bleidlais yn ardal Casnewydd.

Canlyniadau arfaethedig: Erbyn diwedd y gweithdy dylai disgyblion feddu ar rywfaint o ddealltwriaeth o'r canlynol:

- a. Sut roedd bywyd i Margaret Haig Thomas o Lanwern yn blentyn a menyw ifanc.
  - b. Pam yr aeth yn ymgyrchwraig yn y mudiad i ennill y bleidlais i fenywod a'r rhan yr oedd wedi'i chwarae yn yr ymgyrch yng Nghasnewydd
1. Cael gwybod beth mae'r dosbarth yn ei wybod am Margaret, Arglwyddes y Rhondda a pham y mae'n enwog. Pam mae Margaret mor bwysig i ardal Casnewydd? (hyd at ddeng munud)
  2. Drwy sleidiau Powerpoint (lluniau yn ogystal â detholiadau byrion wedi'u golygu o hunangofiant Margaret), byddwn yn archwilio sut roedd ei phlentyndod, beth a oedd ei phrofiad o'r ysgol a sut yr oedd ei bywyd a hithau'n fenyw ifanc. (hyd at hanner awr)
  3. Yn seiliedig ar y drafodaeth hon ac wrth weithio mewn parau, bydd pob pâr yn derbyn darlun gwahanol. Bydd y parau wedyn yn ysgrifennu paragraff am yr hyn y mae'r darlun yn ei ddatguddio. Bydd pob darlun yn canolbwyntio ar agwedd ar fywyd Margaret gan ymestyn o'r adeg pan oedd yn blentyn ifanc hyd at pan oedd yn bum ar hugain oed (sef yr adeg yr aeth yn swffragét). Wedyn byddwn yn rhannu ein canfyddiadau. (hyd at hanner awr)
  4. Siaradwch â'r holl ddosbarth am siwrnai a phenderfyniad Margaret o ran ymuno â'r ymgyrch dros ennill y bleidlais i fenywod (gan esbonio'r termau sy'n cael eu defnyddio) a chan gyflwyno hanes byr a bachog o Undeb Cymdeithasol a Gwleidyddol y Merched yng Nghasnewydd. Byddwn yn llunio rhestr o wahanol weithgareddau Margaret, a hithau'n swffragét yng Nghasnewydd. I ddiweddu'r wers byddwn yn ystyried cyflawniadau Margaret ac Undeb Cymdeithasol a Gwleidyddol y Merched yng Nghasnewydd.